# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 39. RHIF 5 HYDREF 2017 50c


# Llongyfarchiadau Calonnog



*Dafydd Wrennal*



*Lucy Thompson*



*Chloe Roberts*



*Tomos a Joshua*

**Braf oedd clywed am lwyddiant ein pobl ifanc yn eu harholiadau eleni.**

• Dafydd Wrennal am raddio yng Ngwleidyddiaeth a Llywodraeth Cymru gyda anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd.
• Lucy Thompson am raddio yng Ngwaith Cyfrifydd ym Mhrifysgol Manceinion.
• Chloe Roberts, arweinydd Myfyrwyr Prifysgolion Lerpwl yn yr Eisteddfod Rhyng Golegol, am raddio yn Natblygiad chwaraeon gyda addysg gorfforol, iechyd a llês ym Mhrifysgol John Moores.
• Tomos a Joshua Rees, Harpenden am eu llwyddiant yn yr arholiadau. Mi fydd Tomos yn mynd i Brifysgol Sheffield i astudio Economeg.


**YN Y RHIFYN HWN -** Golygyddol (Tywysoges Diana a'i gwaddol); Newyddion Bethel, Bethania, Cymry Manceinion; Dathlu Pen-blwydd arbennig iawn; Apêl Dathlu Deugain Mlynedd Yr Angor; Tasgau gan Ken Williams.

Golygyddol

# TYWYSOGES DIANA A'I GWADDOL – *gan D. Ben Rees*

Aeth ugain mlynedd heibio ers marwolaeth y Dywysoges Diana trwy ddamwain erchyll yn ninas Paris. Nid anghofiaf y bore Sul hwnnw a ninnau yn Llundain ac yn bwriadu pregethu y bore Sul hwnnw yng nghapel enwog Jewin Crescent yn y Barbican.

Gan fod Dafydd ym myd y cyfryngau glywais y newydd arswydus wrth y bwrdd brecwast. Ac am y tro cyntaf yn fy mywyd fe benderfynais beidio pregethu y bregeth oedd wedi ei pharatoi a gwneud rywbeth hollol newydd. Daeth adnod imi yn y car wrth fynd heibio Plas Buckingham am y capel hardd. Mae digon ohonynt yn y Beibl sydd yn sôn am i ni fod yn barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn? Soniais ar ddechrau'r oedfa am y drychineb yr oedd hanner yr addolwyr heb glywed am yr hyn a ddigwyddodd, ac felly yr oedd y newydd yn anodd ei amgyffred. Darllenais ddarn addas, emynau perthnasol, gweddi am y meibion a'r Teulu Brenhinol, teuluoedd galar ym mhobman ac am arweiniad yn y dydd blin, ac yna pregeth wahanol, newydd sbon, heb lawer o amser i fyfyrio ar y weithred y gwyddwn a fyddai'n agor dorau galar y bobl gyffredin.



Dyna a ddigwyddodd. Heidiodd y rhain o bob rhan o Brydain i Lundain gyda'i blodau a'i teganau a'i rhubanau. Teithiodd gyfnither annwyl iawn i mi o Betws Bledws, Ceredigion i Lundain fel arwydd o'i chydymdeimlad. Yn anffodus ni sylweddolodd y Frenhines na'i chynghorwyr oedd yn mwynhau atyniadau'r Alban a Phlas Balmoral mo'r ing a ddaeth i galonnau miliynau o bobl. Ac yn lle dychwelyd ar eu hunion i Lundain i fod yn rhan o'r galar, arhosodd y Teulu yn niddosrwydd Balmoral hyd i'r Prif Weinidog orchymyn y Frenhines fod yn rhaid iddi ddychwelyd os oedd y Frenhiniaeth i barhau.

Yr oedd Diana yn 'rebel' yn creu miloedd o ddilynwyr a fyddai'n barod i wrthwynebu y Frenhiniaeth, a cholli fydd yn y diffyg hyblygrwydd. Gwnaeth Tony Blair arbed y Frenhiniaeth a mynegodd deimlad y mwyafrif ohonom wrth alw Diana yn 'Dywysoges y Bobl'. Hi wedi'r cyfan oedd y ferch fwyaf adnabyddus yn y byd, wel hi a'r Frenhines Elisabeth yr Ail. Ond yr oedd ei phrydferthwch a'i swildod, ei bywyd trist a'i diffyg confesiwn wedi ei anwylo hi i gymaint o newyddiadurwyr a golygyddion y wasg, ym mhob gwlad, fel na allai neb gystadlu â hi. Yr oedd ei llun ar glawr y cylchgronau ac o fewn y papurau dyddiol a'r Sul yn ychwanegu miloedd ar filoedd o ddarllenwyr newydd.

Gwnaeth waith cymeradwy fel llysgennad ar hyd a lled y byd, yn barod i gofleidio plant yn dioddef o glefydau, ac i ysgwyd llaw gyda dioddefwyr Aids.

Yr oedd yn gyfuniad o'r Fam Teresa, o Jackie Kennedy, ac o Harriet Harman. Yr oedd ei phlant William a Harry mor debyg iddi ugain mlynedd yn ôl, ond go brin y gellir dweud hynny bellach. Fel y soniodd un sylwebydd y dydd o'r blaen mae'r Tywysog William yn mynd yn debycach bob dydd, nid i'w dad, ond i'w daid, Duc Caeredin. Ac y mae Harry yn dal heb ei wareiddio yn gyfangwbl, nid yw cnoi tafod yn rhan o'i ymateb bob tro, ac y mae dipyn o'i fam ynddo o hyd.

Un o'r ychydig Gymry a ddaeth i adnabod Diana oedd y gwleidydd, Cledwyn Hughes. Anfonodd hi lythyr iddo yn Hydref 1981:

*"I cannot thank you enough for all the help you've given me for my visit to Wales. I am enormously grateful and touched that you'd want to take so much trouble. The tapes have just arrived and by the time we reach the city of Cardiff, I should be word perfect. I look forward to seeing yours in 'our' ways and again many thanks for sparing us so precious time.*

*Your most sincerely –*

*Diana*

Dymuniad Cledwyn Hughes oedd rhoddi'r croeso cynhesaf iddi yng Nghymru ac i ofalu ei bod hi'n teimlo'n gartrefol. Llwyddodd. Felly hefyd y Dywysoges Diana. Yr oedd hithau, yn rhoddi gair caredig, gwên ac ysgwyd llaw iddo neu iddi hi. Amddifadwyd ni yn fawr yn ei marwolaeth. Diolch am ei bywyd a boed i'w meibion ddal i'w chofio fel Mam a feddai ar galon fawr.

# CORNEL Y TRYSORYDD



## Hydref 2017

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Alan Morris, Caer | £25.00 |
| Mr David Mawdsley, Bodfari | £25.00 |
| Dr Bethan McGuigan, Thingwall | £22.00 |
| Miss Mair Powell, West Derby | £50.00 |
| Mr a Mrs Idris Roberts, Allerton | £25.00 |
| Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan | £36.00 |
| Mr Geraint Evans, Bull Bay | £12.00 |
| Mrs Ann Jones, Llanwrin | £20.00 |
| Mr a Mrs Huw Davies, Rhuthun | £20.00 |

**Cyfanswm £235.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH 07729 960484*

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Gobeithio i chi i gyd fel aelodau a charedigion yr eglwys gael y cyfle i fwynhau tynor yr haf i ymlacio a chrwydro ac yn awyddus i ail-afael yng ngweithgareddau yr Hydref. Mae rhaglen Y Gymdeithas Lenyddol ar gael yn y cyntedd a diolch i'n gweinidog Dr. D. Ben Rees a Mair Powell am eu gwaith yn paratoi ar ein cyfer.
Cawsom fore heulog braf ar y daith gerdded noddedig o amgylch Parc Sefton ar Orffennaf yr 8fed i godi arian tuag at y Phillipines drwy Gymorth Cristnogol Daeth criw da ynghyd a'r ymateb ariannol dros fil o bunnoedd. Cawsom gyfle i gymdeithasu fel eglwys a codi arian at achos teilwng yr un pryd. Diolch i Carys Jones ein swyddog cyswllt am drefnu ac i'n teuluoedd a'n cyfeillion am eu haelioni.
Pnawn Sadwrn, Gorffennaf y 15ed bu dathliad pen-blwydd arbennig i'n gweinidog yn 80 oed a cheir yr hanes mewn adroddiad yn y rhifyn hwn.
Bu cwmni arbenigol yn paentio tu allan i'r adeiladau ym mis Awst a bu Mri Idris Roberts, Meirion Evans a Roderick Owen yn gosod amryw o luniau ar furiau'r Ganolfan, a charthen o waith Cefin Burgess yn y cyntedd. Mae hon ar fenthyg i ni gan Dr a Mrs Meinwen Rees. Gwerthfawrogwn hyn gan ei bod yn portreadu rhan o etifeddiaeth Capeli Cymraeg Lerpwl. Diolch am bob cymwynas.
Ein llongyfarchiadau i Mr. Mike Farnworth o Ddosbarth y Dysgwyr ar ennill gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol Môn am ysgrifennu Tair Stori i Ddysgwyr.
Anfonwn ein cofion at holl aelodau'r Eglwys ac yn arbennig y rhai sy'n methu â dod i'r oedfaon fel cynt. Cofiwn amdanoch yw ein gweddïau. Bu Mrs Beryl Williams o dan archwiliad i'r Ysbyty ar ôl cyfnod o waeledd, ond mae yn cryfhau o ddydd i ddydd.
Bu'r haf yn ddyddiau o lawenhau i gynifer o'n plith; i Lucy Thompson, Woolton ar ennill gradd ym Mhrifysgol Manceinion, a'i chefnder Dafydd Wrennal, am raddio ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd William Hunt, Allerton, mab ein haelod Mrs Gaynor Hunt radd ym Mhrifysgol Hope a Gareth Owen radd M.A. o Brifysgol Reading, Bu ef a'i deulu adref am rai wythnosau o Oman. Llwyddodd Tomos Rees, Harpenden yn arholiad Lefel A a bellach mae ar ei ffordd i astudio Economeg ym Mhrifysgol Sheffield. Gwnaeth ei frawd iau Joshua yn flwyddyn gyntaf chweched dosbarth yn gymeradwy ac mae ganddo flwyddyn cyn dilyn yr un llwybrau, ond nid efallai i'r un brifysgol.
Bu Cystadleuaeth Golff y Cyfundeb yng Ngroesoswallt a chipiodd Dr. John G. Williams Cwpan Adran y Blaenoriaid. Chwaraeodd John P. Lyons, Bethania hefyd. Enillwyd Cwpan y Gweinidogion gan y Parchedig Neil Kirkam, Llandudno (ond brodor o Moreton, Cilgwri).
Gweler yn y llun hefyd y Parchedigion T. L. Williams, Pwllglas a W. H. Pritchard, Bae Trearddur.



*Cystadleuaeth Golff y Cyfundeb*


## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo, Lerpwl

Ar 21 Awst braf oedd cael Oedfa Undebol yn Christ Church a chyfle i wrando ar yr addfwyn Weinidog o Faldwyn, y Parchedig J. Gwyndaf Richards. Hon oedd yr unig oedfa a gawsom yn ein hadeiladau y mis hwnnw. Ond trefnir ym mis Medi oedfa unigryw a hynny ar bnawn Sul (sylwer nid bore Sul fel ag sydd yn y Plan) am 2.30 o'r gloch, 24 Medi yn Festri Christ Church o dan ofal ein Gweinidog, Parchedig Athro D. Ben Rees.
Oedfa i gydnabod bywyd Miss Dorothy Williams, Blundellsands, ac a fydd y diwrnod canlynol yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 mlwydd oed. Mawr obeithiwn y gall Miss Williams fod yn ein plith yn Oedfa'r Diolch a gweinyddir hefyd y sacrament o Swper yr Arglwydd. Daw Miss Williams o deulu hirhoedlog, gan i'w chwaer, y ddiweddar Mrs Gwen Roberts ddathlu eu chanmlwyddiant yng nghartref gofal Tithebarn. Bu'r ddwy fel y teulu oll yn selog yng nghapel Waterloo a chyn hynny yng nghapel Douglas Road. Ar ôl yr oedfa cawn gyfle o amgylch y bwrdd i lawenhau yn y lluniaeth a baratoir. Y mae'r trefniadau am y dydd, yn nwylo Mr. John P. Lyons, Mrs Elin Boyd a'r Gweinidog. Da gweld fod y Parchedig Greg Cuff, offeiriaid Eglwys Christ Church yn cymeryd rhan arweiniol yng Nghymanfa Ganu y Gadair Ddu ar bnawn Sul, 10 Medi 2017 yn eglwys Seion, Laird Street, Penbedw.

## Cymry Manceinion

Mae pethau wedi bod yn ddigon distaw yn ystod y ddau fis diwethaf oherwydd y gwyliau ond mae yna un neu ddau o bethau i'w nodi. Yn gyntaf mae gwaeledd wedi codi ei phen yn ein mysg gyda rhai yn yr ysbyty: Ron, Gwenda, Irene a Lois wedi cael sbeliau yn yr ysbytai gwahanol ond pawb ond Gwenda wedi mynd adref erbyn inni ysgrifennu heddiw. Mae hi hefyd yn gwella ond yn disgwyl gwely mewn cartref rehabilitation rhywle yn y cyffiniau am ychydig o wythnosau. Mae Ken i ffwrdd efo'i ferch i atgynerthu a Ron wedi mynd at ei gor nith yn y wlad. Roedd yn drist i ffarwelio â Miss Gwen Jones a oedd yn aelod o gapel Noddfa Oaker Avenue a chyn hynny gyda'i rhieni a'i chwiorydd yn perthyn i gapel Stockport cyn iddo gau. Mrs Mair Swift oedd yn ei chludo i'r capel pan yn bosib. Bu'r arwyl yn Amlosgfa Stockport ar yr 17 Awst. Roedd Gwen wedi gofalu am y teulu i gyd a chadw ymlaen i weithio fel ysgrifennydd i un o arbenigwyr ysbyty Stepping Hill tan ymddeol. Mi fydd ei

phersonoliaeth gynnes a'i hiwmor sych yn aros yn ein cof.
Edrychwn ar y dyfodol am eiliad: rydym yn edrych ymlaen at Rali Genhadol Capeli Manceinion ar Brynhawn Sadwrn 7 Hydref pan fydd Mrs Cheryl Williams yn dod atom i siarad am thema ymdrech arbennig Cymorth Cristnogol at waith yn y Philipinas eleni, 'Corwynt Cariad'. Bu i Sheryl, sy'n byw yn Llanrhaeadr ger Dinbych, fynd ar ymweliad i'r Philipinas ac mae ganddi brofiadau arbennig i rannu hefo ni.
Ar Hydref 13 fe fydd Cymdeithas Cymry Manceinion yn cael y pleser o gwmni Dr John Williams Lerpwl yn y cyfarfod agoriadol o'r Gymdeithas. Bydd John yn siarad am 'Lluniau y Ffotograffydd John Thomas'. Gwyddom fod gan John wastad bethau diddorol i ddangos a dweud wrthym! Cewch weld rhaglen llawn y Gymdeithas ar y wefan: manchesterwelsh.org.uk
Llongyfarchiadau calonnog i Rhobet Williams sydd wedi llwyddo ei MA yn ddiweddar a dymuniadau gorau a phob bendith yn y dyfodol iddo. Rydym bob amser yn falch o'i gwmni yn y gweithgareddau Cymraeg.



***Mae Rhobet Edward Williams, Llywydd Cymdeithas Cymry Manceinion, wedi ennill gradd MA mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg gyda Teilyngdod o Brifysgol Bangor eleni. Cafodd ef BA mewn Cymraeg gyda anrhydedd ail ddosbarth uwch ym 2013 o Brifysgol Aberystwyth.***

# Gair neu Ddau o Gyflwyniad gan Hugh Brightwell, Ellesmere Port


Hugh Brightwell ydw i a dw i'n ddysgwr Cymraeg. Yn diweddar mi ges i'r fraint o fod yn un o'r pedwar olaf yn cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern. Yn y diwedd enillais i ddim ond ges i brofiad gwych a chwrddais bobl glên. Dw i'n siwr bydd yr enillydd, Emma Chappel, yn enghraifft perffaith i ddysgwyr.

Mi ges i fy ngeni yng Nghaer, a fy magu yn hollol ddi-Gymraeg yn Ellesmere Port er ganwyd fy mam a fy nain yn y Rhos. Gilly ydi fy ngwraig, un o swydd Efrog yn wreiddiol ydi hi, mae hi'n dysgu Cymraeg hefyd a dan ni'n byw yn Ellesmere Port.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Hydref 2009. Mewn gwirionedd, dw i wedi treulio llawer o oriau yn y dosbarth ond dw i wedi cael llawer o hwyl hefyd. Ar y dechrau rôn i eisiau dysgu dim ond pethau syml fel "Diolch yn fawr, Os gwelwch yn dda, Bore da" ayyb., er mwyn bod yn gwrtais pan ôn i yng Nghymru. Mi ges i lawer o ysbrydoliaeth â chefnogaeth oddi wrth fy nhiwtoriaid yn dysgu'r iaith ac yn dysgu mwy am y hanes a diwylliant Cymru. Mae'n rhaid i mi diolchi i fy nhiwtoriaid, mae bob un ohonynt wedi bod yn wych. Yn wir, dw i wedi mwynhau yn fawr iawn fy mhrofiadau yn dysgu Cymraeg hyd yn hyn. Ar hyd y ffordd dw i wedi cyfarfod llawer o bobl, dysgwyr, tiwtoriaid a Cymry Cymraeg, diddorol iawn. Bydda i'n parhau mynd i wersi, i drio gwella fy sgiliau tu hwnt y dosbarth ac i rhoi cymorth i ddysgwyr eraill yn yr un modd â ges i gymorth â chefnogaeth.

Mae 'na helaeth o weithgeraddau Gymraeg rydw i'n eu mwynhau a dw i'n ddiolchgar iawn i bawb yn y gymuned Cymraeg sy wedi bod mor groesawgar, amyneddgar a chynorthwyol i mi er mwyn i'r gweithgeraddu bod yn bosibl. Dw i'n aelod o côr y dysgwyr, Côr DAW, sy wedi cael y llwyfan tairgwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a oedd yn ennill y llynedd yn y Fenni. Cefnogwr o sawl sesiwn siarad ydw i, dwi'n credu bod nhw'n pwysig iawn i ddysgwyr sy angen ymarfer, ymarfer, ymarfer. Dw i'n aelod o Gymdeithas Wil Bryan yn yr Wyddgrug a dw i'n falch iawn fy mod i wedi cael yr anrhydded o gael fy ethol yn Llywydd eleni o ganlyniad i fy ymdrechion yn dysgu Cymraeg. Yn Wrecsam dwi'n aelod hefyd o gymdeithas tebyg, sef Meibion Maelor. Dw i'n cymryd rhan hefyd mewn grŵp gwirfoddol yn Saith Seren yn Wrecsam o'r enw Clwb Clebran sy'n cynnal a noddi digwyddiadau i ddysgwyr er mwyn rhoi blas o'r Cymraeg iddyn nhw tu allan y dosbarth.

Dwi'n falch iawn fy mod i'n medru'r Cymraeg ac yn medru cael mewnwgolwg bach y byd Cymraeg.
Diolch i chi am roi cynnig i mi ddweud fy hanes.



# Dathlu Pen-blwydd arbennig iawn

**Yr adroddiad gan Nan Hughes Parry a'r lluniau gan John G. Williams**






Pnawn Sadwrn, 15 Gorffennaf bu dathliad pen-blwydd arbennig i'n Gweinidog yn 80 oed, cyfrinach a gadwyd oddi wrtho gan ei briod Meinwen nes iddo basio y ganolfan a gweld muduron yn y maes parcio. Meddyliodd beth sydd yn cael ei gynnal a minnau ddim yn gwybod! A phan barciodd y car yr oedd John a minnau i groesawu'r ddau i fewn, a phan welodd y byrddau wedi eu hulio yn chwaethus yr oedd ei wyneb yn bictiwr. Gwelodd y danteithion amrywiol hyn.

Cafodd y ddau eistedd a chefais innau gyfle i groesawu yr holl wahoddedigion a ddaeth ynghyd o Bethel.

Trefnwyd y dathliad hwn gan swyddogion lluniaeth y Gymdeithas Lenyddol, cymdeithas y bu ein Gweinidog yn llywydd iddi ers 49 o flynyddoedd! Diolchir i Gwenfyl Bain, Lilian Coulthard, Carys Jones a Enid Pierce Hughes a chyda help llawer un arall!

Roedd hi'n hyfryd cael cyd-ddathlu (gan mae 1 Awst oedd y dyddiad swyddogol) ac i ddiolch i Dr. Rees am ei fugeiliaeth drosom ac i ddymuno yn dda a chanu pen-blwydd hapus ar ôl torri'r deisen. Talodd Dr. J. G. Williams wrogaeth bellach gyda rhoddion anghyffredin ac yr oedd hyn yn dderbyniol dros ben. Ddim yn aml y daw y cyfle i'n Gweinidog eistedd yn ôl a mwynhau dathliad am ddwy awr a hanner yn llawn llawenydd. Diwrnod i'w drysori ydoedd.







***Mrs Joyce Lewington***





***Miss Ann Roberts***



***Bwrdd yr Ifanc***



***Blodwen Prowting***



***Gwenfyl Bain yn gofalu ar ôl Ted Clement-Evans***

# *Apêl Dathlu Yr Angor - Deugain Mlynedd 1979 - 2019*

## *Agor Cronfa y Dathlu*

**Yn mis Mai 2019 bydd yr Angor yn cyrraedd carreg filltir bwysig yn ei hanes sef 40 mlynedd yn hanes y papur bro. Yn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf awgrymodd y Cadeirydd ein bod yn mabwysiadu cynllun a wireddwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Môn o wahodd pobl i gyfrannu swm penodol bob mis dros gyfnod o ugain mis, hynny yw o Dachwedd 2017 i mis Mehefin 2019. Gellir trefnu hyn trwy sustem y banc (*direct debit*) neu talu am dri mis neu chwe mis neu yn fisol, ag anfon fel ag y gwneir yn awr i'r Trysorydd, Roderick Owen. Y swm a benodir yw £10 y mis ac felly mewn ugain mis bydd y cyfanswm yr unigolyn wedi cyrraedd y swm o £200. Os ceir ugain person yn barod i gyfrannu, dyna swm o ddwy fil o bunnoedd i *Bwyllgor Gwaith Yr Angor* ar gyfer y dathlu.**

**Gellid talu y £200 ymlaen llaw pe bai rhywun yn dymuno neu fesul mis beth bynnag sydd orau i'r darllenydd.**

**Bydd yr unigolion a gyfrana tuag at Gronfa y Dathlu yn gofalu bod yn mynd ati i –**

**1) gynnal Dathliad arbennig ym mis Mehefin 2019 (Cinio? / Cyngerdd? – heb ei benderfynu eto).**

**2) cefnogi Cyfrol Yr Angor, detholiad o ysgrifau a lluniau a ddaw allan ym Mehefin 2019 yn rychwant y deugain mlynedd, o 1979 i 2019.**

**3) a thuag at *Cyfrol ar Hanes Cymry Lerpwl* – gyda'r teitl Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl a baratoir y misoedd nesaf hyn gan Dr. D. Ben Rees, ein Golygydd.**

**Anfonwch y £10 cyntaf i'r Trysorydd erbyn bore Llun, 2 Hydref 2017 er mwyn iddo gael ei nodi yn rhifyn Tachwedd 2017 o'r *Angor.* Y peth pwysig yw ein bod yn cyfrannu am ugain mis. Boed llewyrch ar yr ymdrech, a chofier y cyfeiriad, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA.**

**Oni bai am ein darllenwyr byddai *Yr Angor* mewn trybini, dyma gyfle inni ddathlu yn deilwng o'r brodyr a'r chwiorydd a weithredodd ar lwybr aberth a llafur cariad.**

***John G. Williams, Cadeirydd; Roderick Owen, Trysorydd; D. Ben Rees, Golygydd; Ben Hughes, Ysgrifennydd a holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith oedd yn bresennol ym Methel ar 17-7-2017***

## CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017

**Yn Rhaglen Canmlwyddiant y Gadair Ddu ar dudalennau 72-74 ceir rhestr o'r unigolion, capeli a chymdeithasau a gyfrannodd tuag at gynhaliaeth yr Ŵyl. Ond nid yw yn gyflawn gan y nodir yn y rhifyn hwn Rhestr 9 (hyd at 31 Awst 2017).**

**Bu'r rhestr hyn yn gyfrifol am i'r Gronfa groesi i ddeg mil o bunnoedd, ymdrech hynod o gofiadwy. Dyma felly**

**Rhestr 9 (hyd 31 Awst 2017)**

Ymateb hynod o haelionus a diolch o galon

1) Geraint Evans, Bull Bay, Amlwch .......... £20
2) Clifford a Myfanwy Owen, Llanfairfechan .......... £50
3) Mrs Sioned Kenyon, Calderstones, Lerpwl .......... £50
4) Kenneth Sykes, Toronto, Canada .......... £100
5) Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Seion, Laird Street, Penbedw .......... £200
6) Miss Iris Hughes Jones, Wallasey .......... £25
7) Mrs Mair Jones, Childwall, Lerpwl .......... £25
8) Dr David a Enid Roberts, Bangor, Gwynedd .......... £40
9) Margaret a Hywel Roberts, Caernarfon, Gwynedd .......... £100

**Cyfanswm .......... £710**

Dyma glo ardderchog i'r ymdrech gofiadwy hon.

*D. Ben Rees (Trefnydd yr Apêl)*

*1 Medi 2017*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# TASGAU DROS MIS HYDREF

***a baratowyd gan Ken Williams***

## AWDURON EMYNAU – PWY YDYNT?

1. "Enw i ofyn i" Joseph Parry am ei emyn 'Sirioldeb' (6 a 3)
2. "A mwy na" dim, mae'r emyn o'r un enw (6)
3. "Fedd neb, ar" ben pob anhawster ddweud 'mae gennyf ddigon yn y nef' (4 a 4)
4. A "fu her weld" y cyfle i hwn sôn am "Y gŵr a fu gynt o dan hoelion" (3 a 6)
5. Oedd hwn o "dan loes i" greu ei holl emynau (4 a 4)

| | | |
|---|---|---|
| DD | O | CH |
| G | E | R |
| L | Y | W |

## GWNEUD GEIRIAU

O'r llythrennau yn y bocs, gwnewch allan eiriau yn cynnwys pedair llythyren neu mwy. Mae un gair yn cynnwys y naw – hint fechan - SWILDOD. Mae yma o leiaf 40. Y llythrennau i'w defnyddio ond unwaith.

Gweler yr atebion ar dudalen 10

***Myfyrdod***

# DIOLCHGARWCH

Mae gen i drysor o lyfr "GEIRIADUR CHARLES". Cefais y llyfr ar ôl fy nhaid ac mae 995 o dudalennau ynddo yn syrthio oddi wrth ei gilydd ond yn ddarllenadwy. Roedd yn flaenor ac athro Ysgol Sul yng nghapel y Parch R. R. Morris, Tabernacl, Blaenau Ffestiniog tua 1897. Dyma beth ddywed am "Diolchgarwch" - "Cydnabyddiaeth o haelioni neu ymgeledd i ni; a'n rhwymedigaethau iddo o'i herwydd. Y mae diolch yn rhan o addoliad dwyfol, dyledus i'r Arglwydd am ei FOD, ei berffeithrwydd ynddo ei hun a'i fendithion i ni. Y mae' n addas i ni ddiolch am y BOD o DDUW. Mae EFE yn gyflawn haeddiannol o glod a diolchgarwch ei holl greaduriaid rhesymol, oblegid ei ddoethineb a'i ddaioni yn eu creadigaeth, eu cadwriaeth, a'u holl ymgeledd."

Yr adeg yma o'r flwyddyn mae'n Hydref ac mae'n *"swan-song"* y flwyddyn onid yw? I mi mae fel gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid gan fod y tymor yn arllwys allan *"life-blood"* ac yn cyhoeddi i bawb "Cymerwch a Bwytewch" ac wedyn byddwch yn ddiolchgar. Dyma'r geiriau a ddarllennir ar bob clawdd, coeden a llwyn. Dywed y Gair yn enwedig y Salmydd "Beth a dalwn i'r Arglwydd "Ym mhob dim diolchwch". Hoffaf emyn hyfryd Dyfed: "Ni flinaist fynd heibio feiau di-ri, I gofio pechadur na chofia tydi".

Mae'r Hydref yn anrhegu ei stôr o gyfoeth y ddaear fel mae'n mynd heibio ac mae'n rhoddi ryw awgrym o gyflawniad nad yw y tymhorau eraill wedi gwneud – mae wedi gwneud y cylch yn gyflawn. Yn wir, fe ddywed y Gair *"Ym mhob dim diolchwch"*. Fe ddylem lleisio hyn ddim unwaith y flwyddyn ond bob dydd o'n hoes a SYLWCH yn fanwl – diolch YM mhopeth ac nid AM bopeth. Yr adeg yma o'r flwyddyn mae yna tinc o dristwch. Cofiaf wrando ar yr annwylaf Parchusaf Tom Nefyn yn pregethu ym Mhen-lan Pwllheli llawer, llawer o flynyddoedd yn ôl ac roedd yn dweud fod dyn yn anghofio weithiau y tristwch yn y gair ffarwel. Yr Hydref yn rhoi inni y syniad odidog nad yw harddwch yn marw tra bod y byd yn parhau. Gyfaill, does dim modd distrywio harddwch oherwydd y mae'n rhan o dŷ Dduw – mae'n Dduw. "Er a welodd aderyn blwydd rai o'i flaen yn adeiladu nyth, bydd ef mewn ryfeddod yn medru gwneud cartref iddo'i hun." Ond fe cwplysaf yr Hydref a'r Gwanwyn – cyll y dail ac yn colli eu gwyrddni, mynd yn llipa a disgyn, petalau'r blodeuyn wedyn OND o fis i fis fe ddaw y Gwanwyn ac fe greir deilen newydd nid yr un deilen ond yr un patrwm ac nid yr un petalau ond yr un delw. O'r bedd daw bywyd, DUW yn GOFALU am BYTH.

Wyddoch chi hyn: *"Man does not live by bread alone"* mae yna bethau eraill fedrem ddiolch amdanynt, fel cydymaith, creadigaeth, gwasanaeth, rhannu heb anghofio cariad at ein gilydd ac at yr Anfeidrol Fod am "Ei holl drugareddau a gofal amdanom".

***ELWYN PARRY***

# COFIO HEDD WYN YN 1967

1917 1967

DATHLU

HANNER CAN MLWYDDIANT

EISTEDDFOD Y GADAIR DDU

Medi 16 eg. 1967

*SEREMONI:*

am 5-00 o'r gloch
wrth y Maen Coffa
ym Mharc Penbedw.

*CYNGERDD :*

am 6-30 o'r gloch
yn Neuadd Ysgol y
Genethod y Parc.

*PRIS 3/-*

**Y SEREMONI**

Llywydd — Y Parchedig R. J. Mon-Hughes.

EMYN.

Bydd myrdd o ryfeddodau
Ar doriad bore wawr,
Pan ddelo plant y tonnau
Yn iach o'r cystudd mawr;
Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn dod i'r lan o'r bedd.

Cyfarchiad Maer Penbedw.
Yr Henadur A. J. Snell, Y.H.

Darllen rhan o'r Ysgrythurau.
Y Parchedig G. Tudor Owen, B.A.

Cyfarchiad Archdderwydd Cymru.
Y Parchedig E. Gwyndaf Evans, B.A.

Darllen rhan o waith Hedd Wyn.
Mr. A. Hugh Williams.

Gosod Torch o Flodau ar y Maen.
Mr. Cecil Roberts.

EMYN.

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym:
Cadw hi rhag llid gelynion,
Rhag ei beiau'n fwy na dim:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena'th aden dros ein gwlad.

Yma mae beddrodau'n tadau,
Yma mae ein plant yn byw;
Boed pob aelwyd dan Dy wenau,
A phob teulu'n deulu Duw:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw Di gartrefi'n gwlad.

Gwna'n Sabothau'n ddyddiau'r nefoedd,
Yng ngoleuni'th ddeddfau glan;
Dyro'r gwlith i'n cymanfaoedd,
Gwna ein crefydd fel ein can:
Nefol Dad, boed mawrhad
Ar D'efengyl yn ein gwlad.

**CYNGERDD**

Cyfeilydd — Mrs. Ernest Williams, L.R.A.M. (Alawes Tegfan)

Cyflwyni'r y Rhaglen gan Y Parchedig R. J. Mon-Hughes

COR — "Arnom gweina dwyfol un"
Arweinydd — Mr. Irwedd Vaughan.

UNAWD — "Angau nid oes"
Madam Kitty Pritchard-Williams.

RECORDERS — Detholiad o Alawon.
Arweinydd — Mrs. Carys Williams, B.A.

UNAWD — "Y Dymestl"
Mr. Tom Roberts.

DAWNSIO — Hyfforddwr — Mr. Trefor Jones.

UNAWD — "Aros mae'r mynyddoedd mawr"
Madam Gaynor Charles Jones.

PARTI PLANT — "Y Darlun' a 'Paradwys Y Bardd"
Arweinydd — Mrs. Eira Pari Huws.

UNAWD — "Gwenfron a mi"
Mr. Irwedd Vaughan.

UNAWD — Detholiad ar y Delyn
Miss Mair Jones. (Telynores Colwyn)

PARTI ADRODD — Rhan o "Rhyfel" gan Cynan.
Arweinydd — Mr. A. Hugh Williams

PENILLION — Y Parchedig E. Gwyndaf Evans, B.A.

*Anerchiad y Llywydd :*
Y. Cynghorydd D. T. Gruffydd Evans, LL.B., Y.H.

**RHAN II**

PARTI PLANT — "Englynion Coffa Hedd Wyn" a "Cyfamod Hedd"
Arweinydd — Mrs. Eira Pari Huws.

UNAWD — "Hiraeth"
Madam Gaynor Charles Jones.

PARTI ADRODD — Detholiad o waith Hedd Wyn.
Arweinydd — Mr. A. Hugh Williams.

DEUAWD — "Y Bardd a'r Cerddor"
Mr. Irwedd Vaughan a Mr. Tom Roberts.

RECORDERS — Detholiad o Alawon.
Arweinydd — Mrs. Carys Williams, B.A.

UNAWD — "Gwlad y Bryniau"
Madam Kitty Pritchard-Williams.

UNAWD — Detholiad ar y Delyn.
Miss Mair Jones. (Telynores Colwyn)

PENILLION — Y Parchedig E. Gwyndaf Evans, B.A.

DIOLCHIADAU

COR — "Doli"
Arweinydd — Mr. Irwedd Vaughan.

**HEN WLAD FY NHADAU**

# TAITH GERDDED DROS 'CORWYNT CARIAD' YN CODI DROS £1100



*Y Cerddwyr a'r Cefnogwyr*



*Ar ddiwedd y daith, ymlacio*

Dros y blynyddoedd mae nifer o weithgareddau Cymry Lerpwl wedi bod yn gysylltiedig â Pharc Sefton e.e. Eisteddfod Genedlaethol 1929. Daeth nifer o aelodau Eglwys Bethel i gymeryd rhan mewn taith gerdded noddedig o amgylch y Parc er mwyn codi arian i Apêl Corwynt Cariad a hynny ar fore Sadwrn, 8 Gorffennaf. Daeth nifer yna i ddymuno dda i ni am daith hwylus a ddi-anaf. Fe wnaed elw o £1151 oherwydd haelioni yr aelodau, eu teuluoedd a phobl caredig Lerpwl. Dyma wyrth go iawn.

***John Williams***

## ATEBION

### AWDURON

1. Eifion Wyn; 2. Amanwy; 3. Eben Fardd
4. Huw Derfel; 5. Sion Aled.

### GWNEUD GEIRIAU

GORCHWYLEDD

gwêl, glew, gloyw, glöwr, gloywedd, gochel, golch, gorchwyl, gordd, gyrdd, gorwedd, gorwel, gorwych, gwedd, gweddol, gwely, gwledd, gwyddel, gwrol, gwlych, gwrych, gwêr, gŵyr, gwyrdd, gwyredd, gwyro, gwych, gŵydd, egwyddor, egwyl, eryl, erol, ogylch, olew, olewydd, wylo.

*Ysgrif Goffa*

# Mrs Mair Jones, Caer

Blin iawn oedd clywed am farwolaeth yr annwyl Mair Jones, hen aelod o gapel y Bedyddwyr Penri Caer, ac yn ddiweddarch yng nghapel St. John Street yn yr un ddinas.

Gwraig oedd Mair i Ernie Wyn Jones, blaenor a chodwr canu y capel y bu y Parchedig Ieuan A. Jenkins yn weinidog ar ddechrau ei weinidogaeth.

Bu Mair a Ernie yn aelodau gweithgar o bwyllgorau Cymanfaoedd Undeb y Bedyddwyr ar y Glannau a Gogledd Cymru; hefyd yr oedd Ernie Wyn yn ffrind agos i Irwedd Vaughan. Dau arweinydd o radd uchel oeddynt a galwad mawr ar eu gwasanaeth, a hyn yn ystod ein hoes euraidd o 1945 hyd yn gynnar yn yr wythdegau. Y pryd hwnnw, roedd nawr o gapeli Bedyddwyr yn perthyn i'r Undeb. Nid oes yr un ar ôl bellach, ac roedd Mair gyda'r olaf o'r holl aelodau gweithgar a chefnogol a gofiwn. Diolchwn am y cyfraniad tawel ac effeithiol y wraig arbennig hon. Boed i'r atgofion amdani felysu ein bywydau ni sydd yn hiraethu am y gymdeithas felys a brofwyd yng nghapeli Glanau Merswy a Chaer.

***K.W.***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Tachwedd 2017 –** erbyn bore Sul, 1 Hydref, 2017, – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Rhagfyr 2017 / Ionawr 2018** erbyn bore Sul, 29 Hydref, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Chwefror 2018 –** erbyn bore Llun, 1 Ionawr 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 ar ddydd Mawrth, 2 Ionawr 2018

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# ADOLYGIAD


D. Ben Rees,
**Cofiant Cledwyn Hughes: Un o Wŷr Mawr Môn a Chymru. 320 tt. (Y Lolfa, 2017) Pris: £ 14.99**

Ar un olwg chwaer gyfrol hynod o amserol yw hon i'r cofiant sylweddol i *Jim Griffiths: Arwr Glew y Werin* gan yr un awdur toreithiog (eto o stabl Gwasg y Lolfa, 2014). A bu'r Dr Ben Rees yn llafurio'n ddiarbed dros y tair blynedd diwethaf i ymchwilio i fywyd a gyrfa unigryw Cledwyn Hughes, Aelod Seneddol Llafur Ynys Môn, 1951-79, ac olynydd Jim Griffiths fel ail Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Swyddfa Gymreig rhwng 1966 a 1968.

A phriodol odiaeth yw gweld y gyfrol hyfryd hon yn gweld golau dydd yn yr union flwyddyn pan fyddai Cledwyn yntau, yr un a anwyd yn Sir Fôn, yn fab i'r Parch H. D. Hughes a'i wraig Emily, yn ystod mis Medi 1916, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed, ac yn y flwyddyn pan yw'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â'r ynys hon yn ei thro. Mae pobl ganol oed yng Nghymru'n cofio'n iawn am gyfraniad pwysig Cledwyn i'n cenedl o'r 1960au ymlaen, ond mae gwir berygl iddo fynd yn dipyn o angof i'r to iau o Gymry nad ydynt yn ei gofio a'i werthfawrogi'n llawn.

Asgwrn cefn yr ymchwil yw'r archif sylweddol o ohebiaeth a phapurau Cledwyn Hughes sydd yng ngofal yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ac, ar yr adegau pwysicaf yn ei yrfa, bu Cledwyn Hughes yn cadw dyddiadur hynod o ddifyr o'r digwyddiadau cyffrous ac yn wir dyngedfennol y bu'n ynghlwm wrthynt. Mae'n drueni mawr na wnaeth hyn yn fwy aml mewn gwirionedd. Yn ogystal gwnaethpwyd defnydd helaeth gan y Dr Rees o nifer fawr o archifau a chasgliadau eraill perthnasol i yrfa Hughes, a gwnaethpwyd darllen cefndirol helaeth ar gyfer y cofiant. A chyfoethogwyd y testun yn sylweddol gan ran bersonol Ben Rees ei hun ym mywyd gwleidyddol Llafur Cymru yn y 1960au a 1970au a'i brofiadau personol o'r blaid. Mae hyn oll yn hollol amlwg o'r llyfryddiaeth a'r ôl-nodiadau manwl a gwir gynorthwyol a ddarperir ar ein cyfer ar ddiwedd yr astudiaeth hon.

Rhennir y testun yn 16 o benodau gweddol o fer. Strwythur cronolegol a ddarperir ar gyfer yr astudiaeth ar ei hyd wrth gwrs, ond, yn ogystal ceir penodau arbennig o ddifyr sydd yn trafod themâu arbennig yng ngyrfa Cledwyn, yn eu plith 'Cledwyn Hughes a'r Teulu Brenhinol', 'Perthynas Cledwyn a Gwynfor', 'Y Pregethwr', ac, yn y bennod olaf oll ceir asesiad penigamp o'i yrfa a'i gyfraniadau neilltuol sef 'Cloriannu Cledwyn'. Mae cynnwys y penodau thematig hyn yn dipyn o agoriad llygad inni oll ac yn fwrlwm o ffeithiau difyr.




Cawn gyfle i ddarllen manylion difyr am fywyd gwleidyddol Sir Fôn yn ystod degawdau cynnar yr ugeinfed ganrif pan fu ethol Megan Lloyd George, y ferch gyntaf erioed i gynrychioli etholaeth Gymreig yn y senedd, ym mis Mai 1929 yn brif ffocws y blynyddoedd hyn. Roedd tad Cledwyn, y Parch H. D. Hughes, yn Rhyddfrydwr tanbaid a diwyro drwy gydol ei fywyd ac felly yn un a edrychai'n chwyrn ar dröedigaeth wleidyddol ei fab i gefnogi'r Blaid Lafur.

Yna eir ymlaen i groniclo cyfnod ffurfiannol Cledwyn o fewn Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, rhwng 1934 a 1937 pan fu'n eistedd wrth draed neb llai na'r Athro T. A. Levi, pennaeth ysbrydoledig Adran y Gyfraith yno am flynyddoedd ar eu hyd (ac un o bileri'r Blaid Ryddfrydol yng Ngheredigion dros gyfnod maith). Er mai yn y trydydd dosbarth yr enillodd Cledwyn Hughes ei radd Ll.B. y Aberystwyth ym mis Mehefin 1937, gwnaeth ei farc yno fel myfyriwr deallus ac ymroddgar ac un a hoffai areithio a dadlau'n gyhoeddus o flaen cynulleidfa.

Yn y bennod nesaf, sef 'Bwrw'i Brentisiaeth (1938-51)', cawn ddarllen hanes cynnar Cledwyn Hughes yn cychwyn ar ei yrfa fel cyfreithiwr yn ei dref enedigol, sef Caergybi, ac ar yr un pryd yn mentro i fyd gwleidyddiaeth Llafur yr ynys, gan sefyll fel ymgeisydd seneddol y blaid yn erbyn y Fonesig Megan Lloyd George yno yn etholiadau cyffredinol 1945, 1950 a 1951. Cawn ddarllen dadansoddiad grymus o'r ymgyrchoedd cyffrous hyn yn y gyfrol hon. Ar y trydydd cynnig wrth gwrs cipiodd yr etholaeth hynod o ymylol, gan barhau i'w chynrychioli yn y senedd hyd nes iddo benderfynu ymddeol o'r senedd, a hynny'n hollol o'i wirfodd, ym 1979.

Yna rhoddir ei sylw haeddiannol i fudiad Senedd i Gymru a fu o gryn bwys yng Nghymru fach rhwng lansiad cyhoeddus 1950 a chyflwyno'r ddeiseb i'r Senedd ym 1956, gyda Cledwyn, fel Ledi Megan hithau, yn un o bileri selocaf yr ymgyrch drwy gydol y daith nid hawdd. Cawn ddarllen am ymgyrchoedd a diddordebau eraill yr AS tra'n eistedd ar feinciau cefn y Tŷ Cyffredin, a thrawiadol odiaeth yw ei berthynas glos, glos gyda'i etholwyr a'u problemau arbennig ar hyd y daith. Roedd yn ateb pob llythyr oddi wrth ei lu etholwyr yn brydlon a chynorthwyol. Fel canlyniad byddent yn driw iddo am oes petai angen.

Gydag ethol llywodraeth Lafur Harold Wilson yn Hydref 1964, daeth cyfle i Cledwyn Hughes i ymuno â'r cabinet newydd fel Gweinidog y Gymanwlad rhwng 1964 a 1966, adeg anghyffredin o sensitif yn natblygiad gwledydd y Gymanwlad, ac yna, yn briodol dros ben, iddo olynu'r hen law Jim Griffiths fel yr ail Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru rhwng 1966 a 1968. Llaw galed a gafodd yno ym merw gwleidyddol ail hanner y chwedegau yng Nghymru gyda'r Arwisgo ar y gorwel a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg yn datblygu i'w lawn dwf ac yn cychwyn nifer o ymgyrchoedd cyhoeddus tra thanbaid. Helbulus yn ogystal oedd ei gyfnod fel y Gweinidog Amaeth rhwng 1968 a 1970, a llawer yng Nghymru yn ei feirniadu'n hallt dros ben.

Daeth aml i dro ar fyd. Oherwydd agwedd Cledwyn ar fater Ewrop, ni dderbyniodd wahoddiad i ymuno â chabinedau Harold Wilson ym 1974 na Jim Callaghan, cyfaill personol iddo ers blynyddoedd lawer, ym 1976. Ond, fel y dangosir yn glir iawn yma, daeth yn 'gonffidant' clos i'r Prif Weinidog, yn enwedig yn sgil etholiad Cledwyn fel Cadeirydd y Blaid Lafur, fel cynrychiolydd y tir canol o fewn y blaid, ym 1974.

Mae'r penodau mwy diweddar yn rhoi sylw llawn i swyddogaeth Cledwyn Hughes fel arweinydd y Blaid Lafur o fewn Tŷ'r Arglwyddi a'r cyfnod a ddilynodd pan eisteddai ar y meinciau cefn yno hyd at ei farwolaeth yn 84 mlwydd oedd yn 2001. Ceir asesiad cytbwys penigamp o gyfraniad a rhinweddau (ynghyd â gwendidau) Cledwyn Hughes yn y diweddglo hollol feistrolgar i'r cofiant sef 'Cloriannu Cledwyn' (tt. 229-46). Can diolch i'r awdur am ei lafur diflino a'i ymroddiad hynod o egnïol, ac yntau ar fin dathlu ei ben-blwydd yn wyth deg mlwydd oedd. Pob hwyl iddo yn ei ymchwiliadau parhaol mewn cynifer o feysydd amrywiol yn y dyfodol.

***J. Graham Jones***

# *Lloffion o'r Eisteddfod Genedlaethol*




Llongyfarchiadau i Robyn Williams, brawd Cadeirydd 'Yr Angor' am gael ei dderbyn i'r Wisg Las, Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Cymerodd Robyn yr enw 'Robyn Armenia' yn yr Orsedd oherwydd dylanwad ei grêd a'r Capel yng Nghaergybi ar bob agwedd o'i fywyd.

Gwelwyd nifer o Gymry Lerpwl ar y maes.



*Christine Pritchard, Frank a Meleri Green*



*Robyn Armenia a Gwydrin yn disgwyl mynd i'r Cadeirio*

---

# *WPS!*

Sefydlwyd WPS! (Welsh. Professional. Social) ym mis Mawrth eleni ar gyfer unigolion â chefndir neu wreiddiau Cymreig i gymdeithasu a llawenhau yn eu Cymreictod.
Ers mis Mawrth mae'r grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd ac mae'r niferoedd sy'n dod yn tyfu'n raddol. Wrth gyfarfod mae cyfle i sgwrsio yn y Gymraeg a chymdeithasu yn hwyliog. Bwytai gwahanol y ddinas yw man cyfarfod mwyaf tebygol y grŵp ond dros yr haf cafwyd brynhawn braf ym mharc Sefton a chafwyd barberciw yn nhŷ un o'r aelodau hefyd.
Bydd WPS! yn mentro i Woolton ym mis Medi i brofi bwyd ym mwyty Istanbul ac mae croeso i aelodau newydd ymuno. Nid yw'n hanfodol siarad Cymraeg ond mae'r grŵp yn cynnig cyfle arbennig i ymarfer mewn awyrgylch hamddenol - mae gennym gymysgedd o allu; rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg a rhai sy'n dysgu meistrioli'r iaith.
Annogir unrhyw un sydd â diddordeb dod am bryd o fwyd i gysylltu â Carys neu Sara Williams drwy dudalen Facebook WPS! Lerpwl neu yrru ebost i carysgog@hotmail.co.uk. Bydd croeso cynnes Cymreig ichi.



*WPS! Yn ymlacio ym Mharc Sefton yn yr haf*